

CYLCHDAITH CREIGIAU DUON

Traeth Newton

Teithiau cerdded o dwyn i dwyn, Pen-y-bont ar Ogwr

Map OS 151

Llwybr
Glan y Môr

04


CYLCHDAITH CREIGIAU DUON


Activity: Rockpooling



Ewch ar hyd ein llwybrau glan môr sy'n addas i'r teulu cyfan, gan ddysgu a chadw'n heini wrth fynd. Codi'r galon wrth gerdded, gyda theithiau byrion a gweithgareddau traeth syml sy'n eich cysylltu â bywyd y glannau, amgylchedd y môr a'ch gilydd.

- A** Man Gweithgaredd
- 1** Stopio a Sylwi
- Cyfeiriad Cerdded
- Llwybr





Cranc bwyttadwy



Gwymon perfedd



Brennig



Cranc gwyrdd



**Riff llyngyr dilliau -
cyfyngu ar effaith ddynol.**
Peidiwch â sefyll ar y strwythur
bregus hwn



Ewch ati i drochi dan wyneb y cynefinoedd morol hallt hyn. Mae'r pyllau glan môr hyn yn cynnwys cyfoeth o fywyd morol rhynglanwol sydd wedi addasu i fywyd rhwng y llanw, yn barod i'w harchwilio. Cofiwch droedio'n ofalus.

Lawrlwythwch y dalen ar archwilio
pyllau glan môr
www.beachacademywales.com/downloads



CYLCHDAITH
CREIGIAU DUON



Pyllau glan môr

CYLCHDAITH CREIGIAU DUON

Manylion y daith

Parcio:

Maes parcio Newton (codir tâl) Peiriant arian parod
39 Beach Rd, Porthcawl CF36 5NH

DECHRAU...

Mae mynediad i'r traeth drwy lithrfa breifat. Ewch yn syth am y môr a throi i'r chwith.

1

Stopio a Sylwi

Chwiliwch am byllau swigod. Tarddellau naturiol yn y tywod lle mae'r dŵr croyw o dir yn codi ar y traeth. Gall tarddellau niferus ymddangos ar ôl glaw trwm.



Ewch heibio'r creigiau ar y tywod gwlyb. Mae'r ardal hon yn lle da i weld olion abwyd y tywod. Edrychwch am dystiolaeth o isfilod (creaduriaid sy'n byw yn y tywod) yn bwydo dan eich traed.



A

Man Gweithgaredd



Mae'r pyllau glan môr yma gyda'r gorau o ran bioamrywiaeth ar arfordir y De. Mae'n werth eu harchwilio. Chwiliwch drwy'r pyllau glan môr isaf am bethau amlwg; anemonau, gwichiaid moch, malwod morol, brennig a chranciau bwytdwy a chrancod y traeth o dan greigiau a gwymon. **Trowch at: Taflen weithgaredd pyllau glan môr**

I archwilio'n llawn bydd angen i chi gerdded ar y creigiau, a chymryd gofal o'ch traed. Dylech osgoi sathru ar riffiau llyngyr diliau a gwylio rhag gwymon gwyrdd a brown gwlyb llithrig. Ewch ar gyrion y Creigiau Duon wrth barhau â'ch taith gerdded. Gwrandewch yn ofalus ac efallai y clywch chi sŵn dwr yn tincial wrth lifo o un pwl glan môr i'r llall.

- * Cylchdaith fer ar lan y môr.
- * Gwisgwch esgidiau cadarn er mwyn camu dros greigiau.
- * Cofiwch wirio'r llanw a dechrau'r daith ar lanw isel.
- * Mae tywydd yr arfordir yn gallu newid yn gyflym iawn. Paratowch ymlaen llaw.
- * Ewch ati i gasglu sbwriel wrth gerdded. Helpwch fywyd morol.

Pellter
yn fras
3km

Llwybr
Glan y Môr

04

Byddwch yn parhau ar draws tywod a llwyfannau creigiog, i'r dwyrain gyda golygfeydd draw am bentref glan môr Aberogwr.



Mae'r daith yn agor o'r diwedd, i fwrdd o'r Creigiau Duon ac at dywod moel. Rydych chi bellach ar Draeth Merthyr Mawr, traeth tywodlyd agored enfawr gyda thwyni gwarchodfa natur Merthyr Mawr y tu cefn iddo. Cerddwch nes i chi basio'r holl lwyfannau creigiog a mynd i fyny'r traeth.

2

Stopio a Sylwi

Mae'r darn hwn o'r Llwybr, ar y lan uchaf meddalach, yn dywod sychach gyda chreigiau lliw a broc môr wedi'i gannu gan yr heli. Er ei bod hi'n anoddach cerdded ar y tywod meddalach, mae'n lle gwych i chwilio a chasglu cregyn gwag.



Ewch yn ôl tuag at y môr drwy gyli bach tywodlyd (efallai y bydd angen i chi groesi craig ar adegau penodol o'r flwyddyn os yw'r tywod wedi symud).

3

Stopio a Sylwi

Mae brain yn aml i'w gweld yn hofran o gylch y pyllau glan môr yn galw ar ei gilydd, ac olion traed gwyllanod yn y tywod ar ôl bod yn chwilio am fwyd.



Croeswch y Creigiau Duon unwaith eto, tan i chi gyrraedd sarn o draeth euraidd agored. Ewch lan at y llethr cerigos, gyda'r môr y tu ôl i chi.

4

Stopio a Sylwi

Chwiliwch am gerrig llawn tyllau. Nid dŵr sydd wedi achosi'r rhain, ond molwsg sy'n gwledda ar greigiau o'r enw pidog.

Anelwch at y maes parcio, hyd y glannau uchaf. Rydych chi'n cerdded yn gyfochrog â Llwybr Arfordir Cymru sydd ychydig o olwg y traeth yn y twyni.

...DIWEDD